

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Ms Liz Watkin - Clerc

Tŷn Lôn, Bethel, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1UW

Rhif ffôn: 01248 671243

Symudol: 07799026791

E-bost: cyn gordolbenmaen@btinternet.com

Rheolau Claddu Cyngor Cymuned Dolbenmaen – dyddiedig 18 Mawrth 1999 (adolygwyd 4ydd Mawrth 2004, 4ydd Hydref 2007, 3ydd Gorffennaf 2008, 7fed Mai 2009 a'r 7fed o Ebrill 2016).

I gael yr hawl i gladdu yn un o Fynwentydd y Cyngor, rhaid cydymffurfio â'r rheolau isod. Pan wneir cais am fedd newydd, **rhaid** cwblhau'r ffurflen atodol, a'i dychwelyd i'r Clerc **cyn cael yr hawl i benodi dyddiad a lleoliad yr angladd.**

Y Cyngor sydd â'r hawl i ganiatáu claddedigaeth. Gwneir hyn drwy gysylltu â'r Clerc. Bydd y Clerc wedyn yn ymgynghori gyda Chynghorwr/wyr y ward berthnasol. Os nad yw'r aelod(au) lleol yn hapus / cytuno i ganiatáu agor bedd newydd yna, gwneir y penderfyniad gan y Cadeirydd ac mae ganddo / ganddi'r hawl i roi caniatâd neu alw Cyfarfod Brys i drafod y mater.

Mae cyfanswm o 5 mynwent o dan ofal Cyngor Dolbenmaen sef:

1. Mynwent Bethel, Penmorfa (Golan)
2. Mynwent Prenteg
3. Mynwent Tynllan, Penmorfa
4. Mynwent Uwch y Llyn, Pentrefelin
5. Mynwent Pennant, Cwm Pennant

Rheolau

1. Dyma'r rhai sydd â'r hawl i'w claddu ym mynwentydd Cyngor Cymuned Dolbenmaen:
 - (a) Pobl sydd yn etholwyr, a'u Priod (neu Gymar), ac yn byw yng Nghymuned Dolbenmaen.
 - (b) Pobl sydd wedi bod yn byw (a'u Priod neu Gymar) yn y Gymuned am gyfnod o **bum mlynedd neu fwy**.
 - (c) Plant o dan 18 oed, sydd wedi eu magu yn y Gymuned, neu blant o dan 18 oed i rieni a gynhwysir yn rhif 1(a) neu 1(b) uchod.
 - (ch) Mewn amgylchiadau arbennig cynhelir Is-bwyllgor Apêl i gynnwys un aelod o bob ward ynghyd â'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd gydag isafswm o 6 aelod.
2. Ni chaniateir prynu bedd cadw / man claddu llwch cadw.
3. Ni chaniateir i berchennog bedd cadw ei werthu i unrhyw un oddigerth i'r Cyngor.
4. Ni chaniateir dewis unrhyw fan claddu arbennig.
5. Ni werthir bedd newydd i unrhyw bwrpas oddigerth i gladdu corff / neu gladdu llwch, yn unol â rheolau 1(a) i (ch).
6. Yr ymgymwrwr sydd yn gyfrifol am sicrhau yswiriant atebolrwydd dilys i gynnwys unrhyw un sydd yn gweithio ar ei ran ym mynwentydd y plwyf.
7. Os bydd ymgymwrwr yn torri unrhyw un o'r rheolau uchod gall hyn effeithio ar ei hawl i gael claddu yn holl fynwentydd y Cyngor.

Cyngor Cymuned Dolbenmaen
Ms Liz Watkin - Clerc
Tŷn Lôn, Bethel, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1UW
Rhif ffôn: 01248 671243
Symudol: 07799026791
E-bost: cyn gordolbenmaen@btinternet.com

Cais am fedd newydd / ail-agor bedd / claddu llwch

Rhaid cwblhau'r isod ar gyfer agor bedd newydd / ail-agor bedd neu gladdu llwch, a'i gyrru yn ôl i'r Clerc **cyn yr angladd** ynghyd â thystysgrif marwolaeth, y tâl priodol a'r ffurflen Rhybudd o Gladdedigaeth.

1. Enw:
2. Cyfeiriad:
3. Dyddiad geni:
4. Man geni:
5. Dyddiad marwolaeth:
6. Lleoliad marwolaeth:
7. Dyddiad arfaethedig yr angladd:
8. Lleoliad yr angladd:
9. Cysylltiad â'r gymuned (yn llawn):
10. Tystiolaeth:
11. Enw cynrychiolydd y teulu (gan nodi'r berthynas), cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost:
12. Enw'r ymgymwrwr:
13. Dyddiad:

*Rhaid dychwelyd y ffurflen hon ar ffurf e-bost i'r Clerc **dri** diwrnod cyn yr angladd.*

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Rheolau Mynwentydd

Beddau

1. Ni chaniateir gosod unrhyw offer i amgylchynu bedd mewn unrhyw ffordd.
2. Dylai maint bedd fod yn wyth troedfedd o hyd, pedair o led, a hyd at wyth troedfedd o ddyfnder.
3. Mae cyfrifoldeb am fedd ar yr ymgymerwr o'r adeg yr agorir y bedd hyd nes y caeir y bedd ar ôl yr angladd.
4. Ni ellir dal y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw niwed a achosir gan drydydd parti.
5. Ni chaniateir palu'r tir na phlannu unrhyw blanhigyn ar fedd. Ni chaniateir gosod cerrig mân na chreu gerddi bach ar unrhyw fedd mewn mynwentydd lawnt.
6. Dylai bedd newydd ar gyfer claddu llwch fod yn llathen sgwâr, dwy droedfedd o ddyfnder, gyda lle ynddo i bedair cist.
7. Ni chaniateir agor bedd yn gynharach na thri diwrnod i ddyddiad y gladdedigaeth.
8. Mewn mynwent lawnt, y Cyngor Cymuned yn unig sydd yn torri'r glaswellt.
9. Cyfrifoldeb y teulu yw clirio'r bedd.
10. Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am unrhyw eitemau ychwanegol a osodir ar fedd. Cyfrifoldeb y teulu yw popeth a osodir ar y bedd. Mewn amgylchiadau lle rhagwelir perygl i'r cyhoedd, yna bydd y Cyngor yn cymryd camau priodol i adfer y sefyllfa.

Claddu

1. Bydd yn angenrheidiol rhoddi Rhybudd o Gladdedigaeth i Glerc Cyngor Cymuned Dolbenmaen drwy gyfrwng neges e-bost **dri** diwrnod o leiaf cyn y gladdedigaeth, oddieithr mewn achosion o frys dan dystysgrif meddyg. Dylid cyflwyno'r rhybudd drwy ddefnyddio'r ffurflen swyddogol a gymeradwywyd gan y Cyngor Cymuned.
2. **SYLWER OS GWELWCH YN DDA** Os bwriedir cynnal claddedigaeth ym Mynwent Uwch y Llyn, Pentrefelin, rhaid hefyd hysybu'r tiffeddiannwr lleol sef, Mrs Elen Wyn Owen, Bron y Gadair, Pentrefelin, Cricieth LL52 0PT drwy gyfrwng neges ffôn i un o'r rhifau canlynol – 01766 522496 / 07814323550 **dri** diwrnod cyn y gladdedigaeth.
3. Rhaid cydymffurfio gyda Deddf Gwlad parthed amserau claddu.
4. Bydd yn ofynnol cyflwyno caniatâd ysgrifenedig prynwr unrhyw fedd (neu gynrychiolydd awdurdodedig) cyn y gellir claddu mewn bedd cadw, - hyn yn ychwanegol i'r ffurflen a gymeradwywyd gan y Cyngor.
5. Bydd unrhyw un sy'n agor neu gau bedd yn gyfrifol am unrhyw niwed a achosir wrth wneud y gwaith hwnnw ac mae'n orfodol iddo feddu ar dystysgrif yswiriant ddilys a digonol. Cyfrifoldeb yr ymgymerwr angladdau yw gwirio manylion y dystysgrif yswiriant.
6. Ni chaniateir gweithio, (gan gynnwys agor a chau bedd), tra bo angladd yn cymryd lle yn y fynwent.
7. Gwaherddir ymgymerwr rhag defnyddio peiriannau tyllu trymion o fewn y mynwentydd. Ceir hawl i agor ac ail-agor gyda chloddwr bach (o dan 1½ tunnell) gan ddefnyddio synnwyr cyffredin. Os daw cwynion i law bydd yr hawl yn cael ei dynnu'n ôl yn syth.
8. Mae pob ymgymerwr, neu ei asiant, sydd yn agor unrhyw fedd, yn gyfrifol am dacluso ar ei ôl a chludo unrhyw bridd a cherrig na ddefnyddir i gau'r bedd o'r fynwent o fewn wythnos i ddyddiad yr angladd. Oni wneir hyn, gall y Cyngor wneud y gwaith ac adennill y costau oddi wrth yr ymgymerwr.
9. Tra bo bedd yn agored mae'n angenrheidiol ei orchuddio gyda defnydd addas i atal unrhyw berson rhag syrthio i'r twll.
10. Rhaid caniatáu o leiaf 2 awr rhwng pob angladd mewn mynwent.
11. Wrth agor pob bedd, bydd yn rhaid gwneud y gwaith fel a ganlyn – bydd y torrwr beddi yn gosod slabiau yn wastad ar hyd gwaelod y bedd, gan adeiladu dau gwrs o flociau ar hyd yr ochrau, y pen a'r traed, i roi uchder o 18 modfedd, yna bydd slabiau concriid 3' x

- 2' x 2' yn cael eu gosod ar ben y blociau i ffurfio "vault" gref.
12. Wrth agor pob bedd, dylid cadw'r pridd da (topsoil) a thywyrch glaswellt i un ochr, a dylid rhoi'r pridd da yn ôl ar wyneb y bedd wrth ei gau.

Gosod Cerrig Beddi

1. Mae'n ofynnol i bob person sydd yn gweithio ar gofeb, boed yn trwsio neu'n gosod, fod yn brofiadol a chael tystysgrif yswiriant ar gyfer y gwaith. Bydd angen caniatâd y Cyngor cyn symud neu osod carreg. Dylid gwneud hynny drwy anfon neges e-bost i'r Clerc.
2. Ni chaniateir naddu cerrig oddi mewn i'r fynwent.
3. Bydd yn rhaid anfon cynllun a disgrifiad o bob cofadail at y Clerc i'w ystyried gan y Cyngor.
4. Ni chaniateir gosod unrhyw gofeb heb yn gyntaf dderbyn caniatâd y Clerc, a bydd angen **tri** diwrnod o rybudd i wneud hynny. Eto, rhaid gwneud hynny drwy gyfrwng neges e-bost.
5. Dylai mesuriadau pob cofeb fod yn ddim mwy na 3' uchder o wyneb y tir a dim mwy na 3' ar draws.
6. Dylai mesuriadau cerrig beddi llwch fod ddim mwy na 2' o uchder o wyneb y tir a dim mwy na 18" ar draws.
7. Ni chaniateir unrhyw waith tra bo angladd yn cymryd lle yn y fynwent.
8. Wrth ail-agor bedd, bydd yn ofynnol i'r ymgymwrwr drefnu i symud carreg neu gofeb un ai allan o'r fynwent neu ei osod mewn man diogel.
9. Dylai cynrychiolwyr y cofebion eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da. Hysbysir pob cynrychiolydd, (os yw'r manylion cyswllt yn wybyddus), pan fo angen atgyweirio cofeb, ac oni atgyweirir hwy o fewn amser penodedig, gall y Cyngor weithredu i wneud y cofebion yn ddiogel.
10. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am ddifrod i unrhyw gofeb neu garreg fedd am unrhyw reswm.
11. Bydd yn rhaid defnyddio 'spike' neu roden bwrpasol i angori carreg fedd.
12. Wrth osod carreg, rhaid i'r gosodwr glirio'r rwbel sydd yn weddill allan o'r fynwent. Rhaid gosod tywyrch glaswellt yn daclus ar y bedd ar ôl gosod carreg.

Cyffredinol

1. Dim ond contractwyr swyddogol y Cyngor yn unig sydd â'r hawl i ddefnyddio chwynladdwr.
2. Cedwir cofrestrau'r Fynwent gan y Clerc.
3. Cedwir hawl gan y Cyngor i adolygu'r Rheolau a'r Taliadau fel bo'r angen. Gweithredir y Mynwentydd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ogystal ag unrhyw Orchymyn a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
4. Ni chaniateir cŵn yn y fynwent oddigerth i gŵn tywys.
5. Ni chaniateir gwneud gwaith o unrhyw fath yn y fynwent heb ganiatâd y Cyngor a hysbysu'r Clerc.
6. Bydd y Cyngor yn archwilio'r mynwentydd yn rheolaidd.
7. Cyfrifoldeb holl fynychwyr y mynwentydd yw cludo eu hysbwriel oddi yno.